SESIWN 2: BETH YW ANGHYDRADDOLDEB?

Ystod oedran: 11-14 oed

Amlinelliad

Yn y sesiwn hwn, bydd y dysgwyr yn dychmygu sut brofiad yw bod yn rhan o gymdeithas anghyfartal, naill ai trwy chwarae'r gêm fwrdd boblogaidd, Monopoly, â rheolau newydd a fydd yn ystumio'r canlyniad, neu trwy feddwl am hynny. Yna byddant yn cymryd rhan mewn trafodaeth ac yn gwylio clip fideo Oxfam am anghydraddoldeb. Yn dilyn hyn bydd y dysgwyr yn edrych yn feirniadol ar ddau graffigyn a ddyluniwyd i hysbysu'r gwylwyr ynglŷn â'r crynodiad cyfoeth eithafol sydd yn y byd heddiw. I gloi, byddant yn dylunio eu ffeithlun eu hunain â llaw yn seiliedig ar yr un ystadegyn, gan fenthyca rhai elfennau dylunio a chynhyrchu eu symbolau eu hunain.

Amcanion dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- Gwerthuso posteri a ddyluniwyd i hysbysu pobl ynglŷn ag ystadegyn anghydraddoldeb penodol
- Chwarae (neu ddychmygu eu bod yn chwarae) fersiwn newydd o Monopoly lle mae cyfoeth wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal rhwng chwaraewyr o'r dechrau
- Gwylio fideo am anghydraddoldeb.

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn dysgu:

- Defnyddio symbolau i ddylunio poster cytbwys â llaw sy'n rhoi gwybodaeth am anghydraddoldeb
- Bod mwy nag ymdrech a sgil unigolion yn dylanwadu ar ddosbarthiad cyfoeth
- Am achosion ac effeithiau anghydraddoldeb economaidd.

Cwestiynau allweddol

- Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rydych wedi eu gweld neu eu profi?
- Sut y gallwn ddiffinio anghydraddoldeb?
- Pam y mae'n bwysig mynd i'r afael ag anghydraddoldeb 'nawr?
- Sut y gallwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb?
- Sut y allwn gyfathrebu'n weledol y syniad bod hanner cyfoeth y byd yn perthyn i ddim ond 1% o'i boblogaeth?

Adnoddau

- Digon o setiau Monopoly i grwpiau o bedwar i wyth chwaraewr chwarae'r fersiwn wedi'i ystumio a ddisgrifir yn sleid 10 (dewisol). Neu, bapur sgrap neu fwrdd gwyn bach a marciwr i bob grŵp
- Sioe sleidiau Sesiwn 2
  - Argraffu'r tudalennau nodiadau
- Canllaw i Athrawon Sesiwn 2
- Pensiliau lliw a phapur tynnu llun neu lyfrau braslunio

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cyn y sesiwn

- Gosodwch y taflunydd a'r sioe sleidiau:
  - Agorwch yr hyperddolen ar sleid 13 (trwy glicio ar y cyfeiriad gwe â botwm ochr dde'r llygoden), er mwyn iddo gael amser i lwytho.
  - Gwnewch yn siŵr bod eich system sain yn gweithio.

Gweithgaredd 2.1
Ddim yn chwarae'n deg

- Dilynwch y nodiadau ar sleidiau 9-11 i arwain y dysgwyr trwy gêm go iawn neu (os nad oes gennych ddigon o setiau Monopoly a/neu amser) gêm efelychiadol o Monopoly sydd ychydig yn wahanol: mae'r rheolau wedi cael eu newid i ffafrio rhai chwaraewyr o'r dechrau.
- Anogwch y dysgwyr i gofnodi eu meddyliau a'u teimladau am y system newydd hon a sut y gallai fod yn berthnasol i fywyd go iawn. Gellir cyflwyno geirfa newydd yn ymwneud ag anghydraddoldeb bryd hyn a chael y dysgwyr i'w deall.
  - *Magl tlodi*
  - *Marchnad rydd*
  - *Dadreoleiddio*

- Mae Sleid 12 yn weithgaredd ymestyn dewisol y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r eirfa newydd yn ymwneud ag anghydraddoldeb a gyflwynwyd yng Ngweithgaredd 2.1. Mae'r astudiaeth achos yn cymharu bywydau dau blentyn sydd wedi cael eu magu yn Ne Affrica ond â chyfleoedd gwahanol iawn. Gellir ei darllen yn uchel a'i defnyddio i ysgogi trafodaeth cyn gwylio fideo Oxfam.

Gweithgaredd 2.2
Beth yw anghydraddoldeb?

- Agorwch yr hyperddolen ar sleid 13 a gwyliwch ffilm ymgyrchu tri munud o hyd am anghydraddoldeb sydd wedi cael ei gwneud gan Oxfam gyda'r dysgwyr. Defnyddir hyn fel sbardun i drafodaeth.
- Diffinio anghydraddoldeb:
  - Gwahaniaethau mawr mewn poblogaeth o ran cyfoeth, incwm a mynediad at wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg.
- Sut y gall niweidio cymdeithas:
  - Mae'n ei gwneud yn amhosibl dileu tlodi byd-eang
  - Nid yw'n caniatáu symudedd cymdeithasol
  - Mae'n sbarduno troseddu a hyd yn oed wrthdaro treisgar
  - Mae'n llygru gwleidyddiaeth ac yn niweidio democratiaeth.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 2.3
Lluniadu'r 1% cyfoethocaf

- Dilynwch y nodiadau ar sleidiau 14-16 i arwain y dysgwyr trwy'r gweithgaredd hwn.
- Mewn parau, bydd y dysgwyr yn edrych yn feirniadol ar bosteri a ddyluniwyd gan Oxfam a'r *Daily Mail* i gyfathrebu'r ystadegyn a ryddhawyd yn 2015 y bydd gan yr 1% cyfoethocaf, erbyn 2016, fwy o gyfoeth na gweddill y byd gyda'i gilydd. Maent yn edrych am syniadau dylunio y gallent eu haddasu neu eu hosgoi. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn gweithio'n unigol, gan ddefnyddio pensiliau lliw i wneud symbolau i greu eu ffeithlun eu hunain yn seiliedig ar yr un ystadegyn.

Sylwer: Mae ffynonellau gwybodaeth a syniadau ar gyfer gwahaniaethu i'w gweld yn nodiadau'r sioe sleidiau.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.